



YSGOL I.D. HOOSON

25.3.19

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Eisteddfod - Llongyfarchiadau a da iawn i'r holl blant a fu'n perfformio yn yr eisteddfodau ysgol ddiweddar. Pleser oedd cael gweld PAWB yn cymryd rhan ac yn mwynhau y perfformiadau adrodd a canu. Llongyfarchiadau mawr i Megan Woodall o flwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth y gadair am waith ysgrifennu cerdd, ac i Ariana Downes o flwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth y goron am ysgrifennu stori. Llongyfarchiadau i dŷ Eryri a enillodd darian yr eisteddfod.

Urdd - Hoffwn hefyd longyfarch yr holl blant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yma yn yr ysgol ar ddydd Sadwrn. Roedd pob un wedi gwneud ei gwaith yn wych. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddiant arbennig gan y byddant yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir a fydd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn Ebrill y 6ed yn Ysgol Gwynedd, Y Fflint.

Llefaru Bl.2 ac Iau / Year 2 and under recitation - Elan Davies (2ail/2nd)
Unawd Bl.2 ac Iau / Year 2 and under solo - Sienna Williams (2ail/2nd)
Unawd Bl.3 a 4 / Year 3 & 4 solo - Ffion Rowlands (2ail/2nd)
Unawd Bl.5 a 6 / Year 5 & 6 solo - Cari Rowlands (1af/1st)
Grŵp Llefaru / Recitation group - (1af/1st)
Unawd Pres Bl.6 ac Iau / Brass solo Year 6 and under - Carys Samuels (2ail/2nd)
Unawd offerynnau taro / drum solo - Harys Jones (1af/1st), Megan Woodall (2ail/2nd)
Parti unsain / Unison party - (1af/1st)
Parti Cerdd dant / Cerdd dant party - (1af/1st)
Grŵp cerddoriaeth greadigol / Creative music group - (1af/1st)

Lluniau Ysgol - Bydd cwmni Tempest yn yr ysgol dydd Mercher yma (27.3.19) i dynnu lluniau'r disgyblion. Dylai'r Meithrin prawn ddod i'r ysgol ar yr amser arferol er mwyn cael tynnu llun. Mae croeso i frodyr/chwiorydd sydd heb ddechrau yn yr ysgol eto i ddod yma peth cyntaf yn y bore i gael llun teulu. Bydd lluniau o frodyr a chwiorydd sydd yn yr ysgol yn cael ei wneud yn ystod y dydd.

Arolwg Estyn - Yn dilyn arolwg diweddar ar yr ysgol gan Arolygwyr Estyn, cewch weld yr adroddiad llawn fydd ar gael o 14eg o Ebrill ymlaen. Bydd yr adroddiad ar gael o wefan Estyn a gwefan yr ysgol.

Cyfarfod CRhA - Cynhelir y cyfarfod CRhA nesaf ar nos Lun Ebrill 1af am 6.00.

Profion Darllen a Rhifedd - Yn ystod y cyfnod o 7.5.19 hyd at y 14.5.19, bydd Profion Cenedlaethol Rhifedd a darllen yn cael ei gweithredu gyda disgyblion blynyddoedd 2 - 6. Bydd profion rhifedd gweithdrefnol yn cael ei cynnal ar system ar lein drwy system asesiadau personol. Cynhelir rhain o fewn ffenest ehangach a fydd yn cychwyn mewn dosbarthiadau gwahanol dros yr wythnosau nesaf. Mae'r profion yn bwysig, ac y mae'n bwysig, fel ym mhopeth y mae'r plant yn ei wneud yn yr ysgol, iddo ef/hi wneud ei gorau. Er hynny, nid ydym am i unrhyw blentyn boeni am y profion hyn.

Gwisg ysgol - Nodyn byr i'ch atgoffa fod gan yr ysgol bolisi gwisg ysgol. Rydym yn eich annog chi fel rhieni / ofalwyr i sicrhau fod y disgyblion yn dod i'r ysgol mewn gwisg ysgol ac hefyd fod gwisgo esgidiau du yn rhan o'r wisg. Er fod angen trainers ar gyfer gwersi addysg gorfforol, esgidiau du yw'r hyn y gofynir i'r plant ei gwisgo ar ei traed i ddod i'r ysgol, gan osgoi gwisgo trainers os gwelwch yn dda. Gyda gwyliau'r Pasg yn agosau, gofynnwn i chi ystyried a chofio hyn os ydych yn nesau at yr amser ble mae angen prynu esgidiau ysgol newydd. Diolch yn fawr i chi am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth